


Polisi Iechyd a Diogelwch

Awdur: David Ashman
Dyddiad: Rhagfyr 2017
Fersiwn: 1



1. Cwmpas a Diben y Polisi

Mae polisi iechyd a diogelwch yn ofyniad cyfreithiol o dan adran 2 (3) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae'n ofynnol i gyflogwyr sydd â 5 cyflogai neu fwy ddarparu datganiad ysgrifenedig o fwriad, amlinellu'r cyfrifoldebau, a disgrifio'r trefniadau sydd ar waith i reoli iechyd a diogelwch. Diben y polisi hwn yw darparu fframwaith i sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles pob un o'r staff, dysgwyr, ymwelwyr a chontractwyr yn hollbwysig yn holl weithgareddau'r sefydliad. Yn ychwanegol, cefnogir y polisi hwn gan weithdrefnau iechyd a diogelwch sydd ar gael ym mhollisi iechyd a diogelwch a phecyn adnoddau'r sefydliad, a'i fewnwyd.

2. Datganiad o Fwriad

Addysg Oedolion Cymru|Adult Learning Wales (AOC|ALW) yw'r darparwr mwyaf o ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) yng Nghymru, sy'n cynnwys nifer o swyddfeydd rhanbarthol yng Ngogledd, De a Chanolbarth Cymru ac yn cyflwyno mewn mwy na 650 o leoliadau lleol ym mhob awdurdod unedol.

Mae AOC|ALW yn cydnabod bod rhaid rheoli iechyd a diogelwch yn llwyddiannus ar bob lefel, ac felly mae'n bolisi datganedig AOC|ALW i ddarparu'r holl gamau rhesymol ac ymarferol i ddiogelu iechyd a diogelwch ei ddysgwyr a'i gyflogeion, a sicrhau nad yw ei ymgymeriadau'n cael effaith niweidiol ar iechyd a diogelwch pobl eraill, fel ymwelwyr neu gontractwyr.

Mae gan bawb sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau AOC/ALW yr un ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol hyn ac arfer cyfrifoldeb a gofal i atal anaf neu salwch iddyn nhw eu hunain a phobl eraill sy'n cael eu heffeithio gan weithredoedd ac esgeulustod yn y gwaith.

Mae AOC|ALW wedi ymrwymo i wella perfformiad a rheolaeth amgylcheddol yn barhaus. Byddwn yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a'r gofynion perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â'n hagweddau amgylcheddol, o fewn ein gweithrediadau a, chyhyd ag y bo'n ymarferol, arfer gorau a dderbynnir mewn rheolaeth amgylcheddol.

Y Cyngor (Bwrdd y Llywodraethwyr) fydd â chyfrifoldeb am y sefydliad a'r trefniadau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei ategu. Mae manylion am sut bydd hyn yn cael ei gyflawni wedi'u hamlinellu yn y polisi hwn, a/neu ceir manylion mewn polisïau a gweithdrefnau penodol eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi Iechyd a Diogelwch a'r Pecyn Adnoddau.

Bydd y polisi iechyd a diogelwch yn cael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn, a bydd yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddarau yn unol â'r angen. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu cyfleu i'r holl gyflogeion, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill hefyd.

Llofnodwyd:.....



24/01/18

3. Sefydliad

Bydd y polisi'n cael ei roi ar waith o fewn y strwythur staffio presennol, a bydd yn cael statws cyfartal â holl amcanion eraill y sefydliad.

Nodwyd y personél canlynol i hwyluso a chynnal amgylchedd gweithio diogel ac iach.

Swydd	Maes	Cyfrifoldebau
Prif Weithredwr	Pob maes gweithrediadau	Cyfrifoldeb STRATEGOL cyffredinol am iechyd a diogelwch yn y sefydliad
Uwch Swyddog Iechyd a Diogelwch	Pob maes gweithrediadau	Cyfrifoldeb GWEITHREDOL cyffredinol am iechyd a diogelwch yn y sefydliad
Cyflogeion	Eu meysydd gweithio eu hunain a/neu feysydd cyfrifoldeb eraill sy'n berthnasol i'w rôl	Gweithredu pob agwedd ar y polisi a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch
Tiwtoriaid	Amgylcheddau addysgu a dysgu	Cadw at bob agwedd ar y polisi a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch
Dysgwyr ac ymwelwyr eraill â safleoedd/dosbarthiadau	Amgylcheddau addysgu a dysgu / swyddfeydd	Cadw at bob agwedd ar y polisi a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch

4. Trefniadau

4.1 Dulliau o adnabod a rheoli peryglon:

Bydd peryglon a risgiau posibl i staff ac ymwelwyr ac i safleoedd neu weithgareddau'r sefydliad yn cael eu hadnabod trwy arolygiadau ac asesiadau risg. Bydd staff sy'n gyfrifol am gynnal arolygiadau ac asesiadau risg yn cael hyfforddiant a byddant yn gymwys i wneud y tasgau sy'n ofynnol ohonynt. Darperir cyngor ac arweiniad gan y swyddog iechyd a diogelwch.

4.2 Arolygiadau

- Bydd arolygiadau Swyddfeydd Canolog / Rhanbarthol yn cael eu cynnal gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch gan ddefnyddio ffurflenni a gweithdrefnau wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer y dasg. Gellir gweld y rhain yn Adran 7 y Polisi Iechyd a Diogelwch a'r Pecyn Adnoddau.
- Bydd arolygiadau o leoliadau allymestyn / addysgu, ar gyfer darpariaeth allymestyn, yn cael eu cynnal gan aelod o'r timau rhanbarthol/cenedlaethol cyn dechrau pob cwrs gan ddefnyddio ffurflenni a gweithdrefnau sydd wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer y dasg. Gellir gweld y rhain yn Adran 7 y Polisi Iechyd a Diogelwch a'r Pecyn Adnoddau. Bydd gradd risg ynghlwm â lleoliad y cwrs/ y gweithgarwch ac yn cael ei rhannu â phawb dan sylw. Pan fydd risgiau wedi'u hamlygu, bydd camau cywiro priodol yn cael eu cymryd.
- Dylai tiwtor y cwrs adolygu'r rhestr wirio lleoliad uchod cyn dechrau pob cwrs. Bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch yn gallu helpu ag unrhyw gwestiynau, materion neu ymholiadau sy'n codi hefyd.

4.3 Asesiadau Risg

- Yn ogystal â Swyddfeydd Canolog / Ardal a lleoliadau allymestyn / addysgu, bydd asesiadau risg o eitemau cysylltiedig eraill fel Cymorth Cyntaf, offer DSE, Mamau Newydd a Mamau Beichiog, Defnyddio sylweddu (COSHH) a Chodi a Chario, ac ati, yn cael eu cynnal gan y Tîm Iechyd a Diogelwch. Bydd canlyniadau'r rhain yn cael eu rhoi mewn ffeil asesu risg, i'w chadw gan y Swyddfeydd Canolog/ Ardal, ac mewn cronfa ddata ar fewnwyd y sefydliad.
- Bydd asesiad/archwiliad risg blynyddol yn cael ei gynnal gan y swyddog Iechyd a Diogelwch i'w adolygu gan Weithgor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chraffu gan y Pwyllgor a'r Cyngor Adnoddau.

5.0 Cyfrifoldebau

5.1 Y Cyflogwr:

Cyfrifoldeb y sefydliad yw sicrhau, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles yr holl gyflogeion, ymwelwyr a dysgwyr. Cyflawnir hyn trwy fabwysiadu'r mesurau canlynol:

- Darparu amgylchedd diogel ac iach;
- Darparu systemau gwaith diogel;
- Sicrhau bod pob un o'r personél yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau heb berygl iddyn nhw eu hunain na phobl eraill;

- Darparu unrhyw hyfforddiant yn ôl yr angen a threfnu bod gwybodaeth am iechyd a diogelwch ar gael yn hawdd;
- Monitro a mesur effeithiolrwydd y polisi hwn yn rheolaidd gydag ymglymiad y Gweithgor Iechyd a Diogelwch;
- Cynnal archwiliad blynyddol o'r holl bolisïau a systemau iechyd a diogelwch.

5.2 Cyflogeion:

Cyfrifoldeb pob aelod o staff, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, yw:

- Cymryd gofal rhesymol am eu hiechyd, diogelwch a'u lles eu hunain a phobl eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu esgeulustod yn y gwaith;
- Cydweithredu â'r cyflogwr, ynglŷn â'r dyletswyddau a osodir trwy statud cyhyd ag y bo'n angenrheidiol er mwyn gallu cyflawni'r gofyniad hwnnw, neu gydymffurfio ag ef;
- Peidio ag ymyrryd ag unrhyw beth a ddarperir er budd iechyd, diogelwch neu les, na'i gamddefnyddio;
- Cadw at weithdrefnau a mesurau diogelwch sy'n berthnasol i'w gwaith eu hunain, ac adrodd am beryglon, damweiniau neu achosion a ddarganfuwyd ganddyn nhw i'w rheolwr llinell perthnasol.

5.3 Tiwtoriaid:

Rhaid i bob tiwtor:

- Eu gwneud eu hunain yn ymwybodol o'r polisi hwn, a pholisïau a gweithdrefnau iechyd a Diogelwch penodol eraill;
- Eu gwneud eu hunain yn ymwybodol o weithdrefnau damweiniau ac argyfyngau'r safle y maent yn gweithredu ynddo;
- Cynnal hyfforddiant sefydlu gyda'r holl ddysgwyr y mae ganddynt gyfrifoldebau addysgu amdanynt;
- Eu gwneud eu hunain yn ymwybodol o anghenion iechyd a diogelwch unigol eu dysgwyr, yn enwedig y rheiny a allai fod mewn risg gynyddol o ganlyniad i anabledd neu anhawster dysgu;
- Adrodd am unrhyw gyflwr peryglus i'w rheolwr llinell perthnasol;
- Adrodd am unrhyw ddamweiniau neu achosion lle gallai damweiniau fod wedi digwydd, sy'n digwydd yn ystod sesiwn addysgu gan ddefnyddio'r dulliau a'r ffurfiau cyfathrebu priodol;
- Mynychu digwyddiadau hyfforddiant iechyd a diogelwch pan gânt eu trefnu.

5.4 Dysgwyr:

Mae pob dysgwr yn gyfrifol am gydymffurfio â'r polisi iechyd a Diogelwch yn ystod eu dysgu. Yn benodol, dylent:

- Ddilyn, a chadw at, yr holl reolau a chyfarwyddiadau diogelwch a amlinellir gan eu tiwtor;
- Rhoi gwybod i'r tiwtor am unrhyw broblem neu gyflwr iechyd a diogelwch sy'n effeithio arnyn nhw neu'u grŵp dysgu;
- Cael cymorth cyntaf ar gyfer unrhyw anaf a gafwyd yn yr amgylchedd dysgu;
- Sicrhau bod pob anaf yn cael ei gofnodi gan eu tiwtor cwrs.

5.5 Pobl sy'n ymweld â safle sefydliad:

5.5.1 RHAID i ymwelwyr busnes sy'n dod i'r sefydliad:

- Lofnodi'r llyfr ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd a gadael y safle;
- Sicrhau bod eu cerbydau'n cael eu gadael mewn ardaloedd parcio cymeradwy;
- Adrodd am unrhyw ddamweiniau, anaf neu ddigwyddiadau peryglus ar unwaith;
- Cydymffurfio â phob agwedd ar y polisiau a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch;
- Adrodd am unrhyw ladradau i uwch reolwr yn y sefydliad.

5.5.2 Tiwtoriaid a dysgwyr a phersonél arall sy'n defnyddio ystafelloedd hyfforddi:

- Bydd yr unigolyn sy'n cydlynu'r digwyddiad hyfforddi neu'r cyfarfod yn llofnodi'r llyfr ymwelwyr ar ran y grŵp. Bydd yn cadw cofnod o'r rheiny sy'n bresennol;
- Wrth wacáu'r safle mewn argyfwng, bydd cydlynnydd y grŵp yn arwain mynychwyr at y MAN YMGYNNULL TÂN a nodwyd ar yr hysbysiad gadael mewn argyfwng ac yn galw rhestr o enwau'r rheiny sy'n bresennol. Os yw'n berthnasol, bydd yn rhoi gwybod am hyn i'r warden tân sy'n bresennol;
- Dylai'r Cydlynnydd/ warden wneud yn siŵr bod neb yn mynd yn ôl i mewn i'r adeilad nes bydd popeth yn glir.

6. Ymrwymadau amgylcheddol

Mae AOC|ALW wedi ymrwymo i roi mentrau arbed ynni ar waith er mwyn lleihau i'r eithaf effeithiau amgylcheddol y sefydliad. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Defnyddio cyfleustodau mewn ffordd gyfrifol ac economaidd i leihau i'r eithaf yr effeithiau negyddol ar yr amgylchedd
- Rheoli gwastraff yn unol â'n dyletswydd gofal, gan leihau faint o wastraff sy'n

mynd i safleoedd tirlenwi, trwy ailddefnyddio ac ailgylchu ble bynnag y bo modd

- Ble bynnag y bo modd, prynu cyflenwadau sydd wedi cael eu hailgylchu ac ailgylchadwy, ac y mae eu cynhyrchu yn lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol
- Cyfleu'r polisi hwn a'n perfformiad amgylcheddol i bobl briodol sy'n gweithio i'r sefydliad, neu ar ei ran.
- Defnyddio contractwyr / cyflenwyr sy'n cyflawni'r dyletswyddau yn unol â pholisi amgylchedd y llywodraeth, gan ddangos ymrwymiad i wella perfformiad amgylcheddol yn barhaus, a rheoli ac atal llygredd o'r gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw.

7. Polisiâu eraill a gwybodaeth arall

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch a'r Pecyn Adnoddau yn cynnwys nifer o bolisiau a gweithdrefnau eraill, gwybodaeth ac arweiniad am feysydd iechyd a diogelwch penodol. Gellir gweld y rhain yn y pecyn ac yn rhwydwaith mewnol y sefydliad.